NICE National Institute for Health and Care Excellence

# Triniaeth radioamledd ar gyfer hemoroidiau

23 Awst 2017

Prin yw'r dystiolaeth gadarn sy'n dangos pa mor dda y mae'r driniaeth hon yn gweithio a pha mor ddiogel ydyw wrth drin hemoroidiau. Gellir defnyddio'r driniaeth hon, ond dim ond pan fydd cleifion yn cael archwiliadau rheolaidd i weld pa mor dda y mae'n gweithio neu a yw wedi achosi problemau. Mae hyn oherwydd yr ansicrwydd ynghylch ei heffeithiau hirdymor a chymhlethdodau.

Pibellau gwaed sydd wedi chwyddo y tu mewn neu o amgylch pibell yr anws (pen ôl) yw hemoroidiau (neu beils). Gyda'r driniaeth hon, caiff stiliwr arbennig sy'n defnyddio ynni radioamledd ei fewnosod i mewn i'r hemoroid neu ei symud ar draws arwyneb y hemoroid. Efallai y bydd angen ailadrodd y driniaeth hon. Y nod yw lleihau maint yr hemoroid.

Gall NHS Choices fod yn fan da i gael gwybod mwy. Mae gan ganllawiau triniaethau ymyriadol NICE fwy o wybodaeth am driniaethau a sut rydym yn eu hasesu.

**A yw'r driniaeth hon yn addas i mi?**

Os cawsoch gynnig y driniaeth hon, dylai eich gweithwyr gofal iechyd proffesiynol drafod yr hyn y mae'n ei olygu, a dweud wrthych am y risgiau a'r manteision. Dylent drafod eich opsiynau gyda chi, a gwrando'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon. Gall eich teulu fod yn rhan o'r broses hefyd, os ydych yn dymuno. Dylai hyn oll ddigwydd cyn y byddwch yn cytuno (rhoi cydsyniad) i gael y driniaeth. Dylech hefyd gael gwybod sut i gael rhagor o wybodaeth am y driniaeth. Darllenwch ragor am wneud penderfyniadau am eich gofal.

© NICE 2017 All rights reserved. Subject to Notice of rights

**Rhai cwestiynau i feddwl amdanynt**

- Beth yn union yw’r driniaeth hon?
- Beth yw'r manteision posibl? Pa mor debygol ydw i o'u cael?
- Beth yw'r risgiau neu'r sgîl-effeithiau? Pa mor debygol ydynt?
- Beth fydd yn digwydd os na fydd y driniaeth yn gweithio neu os aiff rhywbeth o'i le?
- Beth fydd yn digwydd os nad wyf eisiau'r driniaeth? A oes triniaethau eraill ar gael?

ISBN 978-1-4731-2640-4

© NICE 2017 All rights reserved. Subject to Notice of rights